WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Date: 11 Chwefror 2011
Our ref: HVT/1259/fgb
Page: 1 of 4

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Annwyl Darren

## ADOLYGIAD O YMDDYGIAD MR JEREMY COLMAN, CYN-ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU, YN EI SWYDD

Fel y gwyddoch, ym mis Chwefror 2010, comisiynodd Gillian Body, fel Archwilydd Cyffredinol Dros Dro, adolygiad 'diwydrwydd dyladwy' o ymddygiad cyn-Archwilydd Cyffredinol Cymru, Jeremy Colman, pan oedd yn ei swydd. Mae'r Adroddiad Archwiliad Mewnol bellach wedi dod i law, ac atodaf gopi ohono at sylw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Deallaf fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn bwriadu ystyried yr adroddiad yn gyhoeddus. Er bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth sensitif, ar sail y cyngor cyfreithiol a gefais, nid wyf o'r farn y byddai o fudd i'r cyhoedd i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad mewn sesiwn breifat. Bydd trafodaeth gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn helpu pobl Cymru i gael gwell dealltwriaeth o natur unrhyw gamymddwyn a allai fod wedi digwydd, y graddau y mae'r ymddygiad hwnnw wedi effeithio ar Swyddfa Archwilio Cymru, a'r camau a argymhellir i atal sefyllfa o'r fath rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Nid yw rhai o'r materion a drafodwyd eisoes gyda'r pwyllgor, megis materion o ran costau hyfforddiant allanol, wedi'u trafod yn fanwl yn yr adroddiad. Fodd bynnag, maent wedi dyfnhau dealltwriaeth yr adolygiad o ddulliau gwaith Mr Colman, ac maent yn gyson â chanfyddiadau allweddol yr adroddiad.

Direct Line: 029 2032 **0510** E-mail: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk

Roedd casgliad cyffredinol yr adroddiad fel a ganlyn:

> **“Roedd cyfraniad Mr Colman at waith archwilio Swyddfa Archwilio Cymru yn briodol ac yn fuddiol. Ni chanfuwyd unrhyw faterion pellach gennym yn ymwneud ag ymddygiad Mr Colman y dylid eu cyfeirio at yr heddlu nac a ddylai arwain at gymryd camau pellach yn erbyn Mr Colman. Fodd bynnag, rydym wedi nodi materion lle methodd Mr Colman mewn perthynas â rhai o'i gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu, ac mewn rhai achosion gweithredodd yn amhriodol wrth reoli Swyddfa Archwilio Cymru, drwy wyro oddi wrth drefniadau rheoli Swyddfa Archwilio Cymru.”**

Mae'r adroddiad yn ymdrin yn fanwl â'r canlynol:

- cyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- cwmpas a chylch gorchwyl yr adroddiad;
- y ffaith nad oedd yr adolygiad wedi canfod unrhyw faterion y dylid eu cyfeirio at yr heddlu;
- cyfraniad priodol a buddiol Mr Colman at waith archwilio.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi achosion lle methodd Mr Colman â chydymffurfio â'r trefniadau llywodraethu a rheoli sefydledig mewn perthynas â'r canlynol:

- rheoli ariannol;
- trefniadau ar gyfer diswyddo'r Prif Swyddog Gweithredu;
- materion staffio a materion cysylltiedig;
- cofnodi penderfyniadau.

Mae llawer o'r materion yn yr adroddiad yn ymwneud â dull rheoli Mr Colman. Daw'r adroddiad i'r casgliad bod diffygion Mr Colman fel Swyddog Cyfrifyddu, a'i ddiffygion o ran rheoli Swyddfa Archwilio Cymru, yn deillio o'i ddull rheoli, gan na allai gyfathrebu'n agored nac yn gyson. Mae hefyd yn cynnig y farn, y dylwn bwysleisio a gaiff ei gwadu'n daer gan Mr Colman, iddo ganolbwyntio ar ei annibyniaeth fel archwilydd allanol ar draul ei atebolrwydd yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu. Hefyd, ni roddodd ystyriaeth ddigonol i'r fframwaith o drefniadau llywodraethu mewnol ac allanol a oedd yn berthnasol i'w swydd.

Rwyf wedi derbyn pob un o argymhellion yr adroddiad ac, fel yr eglurais eisoes i'r Pwyllgor, mae camau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion hyn yn mynd rhagddynt. Mae'r broses recriwtio ar gyfer Aelodau a Chadeiryddion y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Pwyllgor Adnoddau newydd yn mynd rhagddi eisoes. Bydd y penodiadau hyn yn gwella trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru yn sylweddol.

Yn bwysig ddigon, ar sail canfyddiadau'r adolygiad rwy'n fodlon nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu i unrhyw beth yn deillio o wybodaeth am weithgareddau troseddol Mr Colman, ddylanwadu'n ormodol arno wrth iddo gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae hefyd yn galonogol bod yr adroddiad yn dod i'r casgliad i Mr Colman gael dylanwad hollol briodol a buddiol ar waith archwilio hanfodol Swyddfa Archwilio Cymru.

Trafodwyd treuliau hyfforddiant Mr Colman gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 19 Ionawr 2011, a hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at y ffaith nad oedd yr adolygiad wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod treuliau a hawliadau Mr Colman yn amhriodol. Er hynny, rwyf o'r farn o hyd y dylai Mr Colman fod wedi bod yn fwy ystyriol o ganfyddiadau'r cyhoedd o ran gwerth am arian y treuliau hyn, ac o ganlyniad dylai fod wedi bod yn fwy cynnil.

Bu oedi angenrheidiol o ran cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad, ac rwy'n ymwybodol bod yr oedi hwn wedi peri rhwystredigaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Fodd bynnag, achoswyd yr oedi hwn yn rhannol gan ofynion y broses gyfreithiol, a'r broses o geisio sylwadau gan unigolion, yn cynnwys Mr. Colman, ar yr adroddiad, a rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau hynny wrth baratoi'r fersiwn derfynol.

O ran staffio a materion cysylltiedig, mae gennyf gyfrifoldeb fel eu cyflogwr i geisio sicrhau nad yw staff sy'n gysylltiedig mewn amryfal ffyrdd â gweithredoedd Mr Colman yn destun sylw annheg yn sgîl adroddiadau ar weithredoedd Mr Colman. Felly mae'n bwysig fy mod yn tynnu sylw'r Pwyllgor at baragraff 58 yr adroddiad:

> *"Nid yw ein hadroddiad yn cynnwys manylion y materion a adolygwyd gennym ac a achosodd i ni ddod i'r casgliad hwn, oherwydd byddai gwneud hynny yn golygu nodi a datgelu gwybodaeth am nifer o unigolion ar lefelau gwahanol o ran swyddi. Byddai nodi a datgelu yn y fath fodd yn annheg ac yn anghymesur, ac mewn nifer o achosion byddai hyn yn groes i ddisgwyliadau rhesymol yr unigolion hynny o ran yr amgylchiadau y byddai gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhyddhau i'r cyhoedd."*

Ceir hefyd rhai agweddau ar fy ymchwiliad parhaus fy hun nad wyf yn gallu eu dwyn ynghyd ar ffurf derfynol hyd yma, ac felly mae cyfyngiad yn bodoli ac mae'n bwysig bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystyried hynny wrth drafod yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, gallaf sicrhau'r Pwyllgor, pe bai unrhyw faterion pwysig yn codi o'r trafodion hynny, y byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf iddo cyn gynted ag y bo'n briodol gwneud hynny.

Gallaf sicrhau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, pobl Cymru a phawb sy'n gysylltiedig â Swyddfa Archwilio Cymru fy mod yn deall fy atebolrwydd a'm hannibyniaeth yn llawn, a byddaf yn cynnal y ddau'n briodol.  Rwyf wedi nodi'n glir mai fy mhrif nod oedd adfer hyder y cyhoedd yn nhrefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru fel y gall archwilio cyhoeddus barhau i chwarae ei ran lawn a hanfodol i sicrhau gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sydd o fudd i bobl yng Nghymru.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Amg